
# GWELLIANNAU TEITHIO LLESOL **LLANYMDDYFRI**

## Beth sy'n cael ei gynnig ar hyn o bryd ar gyfer Llwybr AT2 - Nodweddion Allweddol

Designer: Burroughs


Client: Cyngor Sir Gâr / Carmarthenshire County Council

### 1. Croesfan sebra arfaethedig i gymryd lle'r un presennol croesfan heb ei rheoli ar Heol Cilycwm





Darparu croesfan sebra ar Heol Cilycwm, gyda goleuadau oren, gyda'r bwriad o wneud lleoliad y groesfan yn fwy amlwg, tra'n ei gwneud yn ofynnol i gerbydau ganiatáu i gerddwyr groesi. Bwriad hyn yw gwneud y groesfan yn fwy diogel, yn enwedig i ddisgyblion yn Ysgol Rhys Prichard gerllaw.

### 2. Croesfan sebra arfaethedig ar Heol Newydd





Darparu croesfan sebra ar Heol Newydd, gyda goleuadau oren, gyda'r bwriad o ddarparu croesfan ffurfiol ac amlwg i gerddwyr, a'i gwneud yn ofynnol i gerbydau ganiatáu i gerddwyr groesi. Bwriad hyn yw gwneud croesi'n fwy diogel, gan gynnwys ar gyfer disgyblion yng Ngholeg Llanymddyfri gerllaw, a theithio cyffredinol rhwng Gorsaf Drenau Llanymddyfri ac Ysbyty Llanymddyfri.

### 3. Lledu'r droedffordd bresennol ar hyd Heol Newydd - lled darged o 2.5m




Lledu'r droedffordd bresennol o oddeutu 1.6m i 2.5m gyda'r bwriad o wella ymddangosiad y llwybr i gerddwyr, yn ogystal â chefnogi nifer fwy o gerddwyr yn defnyddio'r llwybr hwn.

### 4. Croedfan sebra arfaethedig ar Ffordd y Frenhines





Darparu croesfan sebra ar Ffordd y Frenhines, gyda goleuadau oren, gyda'r bwriad o ddarparu croesfan ffurfiol ac amlwg i gerddwyr, a'i gwneud yn ofynnol i gerbydau ganiatáu i gerddwyr groesi.Bwriad hyn yw gwneud y groesfan yn fwy diogel, gan gynnwys ar gyferteithiau i Orsaf Drenau Llanymddyfri ac oddi yno.

### 5. Lledu'r droedffordd bresennol ar hyd Ffordd y Frenhines - lled darged o 2.5m




Lledu'r droedffordd bresennol o oddeutu 2.0m i 2.5 gyda'r bwriad o wella ymddangosiad y llwybr i gerddwyr, yn ogystal â chefnogi nifer fwy o gerddwyr yn defnyddio'r llwybr hwn, gan gynnwys grwpiau o fyfyrwyr yn cerdded rhwng Coleg Llanymddyfri a meysydd chwarae'r coleg.

### 6. Trefniant cyffordd ddiwygiedig arfaethedig yng Ngorsaf Drenau Llanmddyfri - ffurfioli llwybrau i gerddwyr




Gwneud lleoliad y groesfan i gerddwyr yn glir, gan leihau'r pellter i groesi - gwella teithiau cerdded diogel i Orsaf Drenau Llanymddyfri ac oddi yno.

**YMGYNGHORIAD CYHOEDDUS - CHWEFROR 2026**

N:\51340-00 LLANDOVERY ACTIVE TRAVEL\01 PRODUCTION FORM\01 DRAWINGS\02 CIVIL\51340-BUR-XX-XX-D-C-10111_CONSULTATION IMAGECYMRAEG.DWG